# ADFYWIO BANGOR

# DIWEDDARIADAU PROSIECTAU PARTNERIAETH

14/05/2024

Cyngor Gwynedd

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Sustainable Communities for Learning

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Ffyniant Bro | Levelling Up




## CYNLLUNIAU VARCITY LIVING I HYBU ADNEWYDDU BANGOR GYDA HEN SIOP "PEACOCKS"

Mae cais llwyddiannus Varcity Living yn gam hollbwysig i ailddatblygu hen adeilad Peacocks ar Stryd Fawr Bangor. Ariannir y prosiect hwn yn rhannol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin, a bydd yn cefnogi gwaith hanfodol i flaen yr adeilad. Bydd ail gam y prosiect yn trin y llawr gwaelod ar gyfer gofod manwerthu neu swyddfeydd, tra bydd y lloriau uchaf yn cael eu trosi'n fflatiau. Bydd y prosiect hwn yn gwneud defnydd effeithiol o adeilad gwag, gan adfywio y ddinas a sicrhau cynydd mewn gweithgareddau economaidd. Bydd dros 640m2 o ofod masnachol hyblyg hefyd ar gael, yn barod ar gyfer tenant i symud i mewn.




## CYNGOR DINAS BANGOR YN CWBLHAU NIFER O WELLIANNAU I'R STRYD FAWR.

Yn ddiweddar dyfarnwyd grant o £97,000 i Gyngor Dinas Bangor gan Trawsnewid Trefi, rhaglen adfywio Llywodraeth Cymru. Cafodd hyn ei gyd-ariannu ag arian gan Gyngor Dinas Bangor a chefnogaeth gan BID Bangor, er mwyn hwyluso nifer o welliannau i'r Stryd Fawr ym Mangor. Mae'r gwelliannau yma yn cynnwys atgyweirio adeiladau, gosod feinyls mewn siopau gwag, dodrefn stryd newydd a a chreu ardaloedd gwyrdd yng nghanol y ddinas. Yn ogystal, bydd y prosiect yn annog trafnidiaeth gynaliadwy drwy osod pwyntiau gwefru trydan i geir a beiciau. Erbyn hyn, mae rhan helaeth o'r prosiect wedi ei gwblhau, ac o ganlyniad, wedi creu newid i edrychiad y stryd fawr.



## PLANT YSGOLION BANGOR YN DATHLU DYDD GŴYL DEWI.

Cafodd Dydd Gŵyl Dewi ym Mangor ei nodi gan ddathliad eleni, gyda parêd bywiog yn cynnwys 300 o blant ysgol. Cafodd y digwyddiad ei ariannu gan Grymuso Gwynedd, cronfa sydd yn cael ei ariannu drwy gynllun Ffyniant Cyffredin y DU, yn ogystal â chefnogaeth ariannol gan Wasanaethau Adfer Niwclear ar ran Awdurdod Digomisiynu Niwclear.

# ADFYWIO BANGOR

14/05/2024

# DIWEDDARIADAU PROSIECTAU PARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sustainable Communities for Learning

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

FFYNIANT BRO | LEVELLING UP



## DATRYSIAD BID BANGOR O DDEFNYDDD HEBOG AR GYFER NIWSANS GWYLANOD

Dros y chwe mis diwethaf, mae BID Bangor wedi bod yn gweithio gyda arbenigwr lleol i geisio lleihau nifer y gwylanod o fewn y ddinas. Mae'r BID Bangor wedi defnyddio hebog i batrolio canol y ddinas am gyfnodau o ddwy awr, er mwyn ceisio atal gwylanod rhag nythu a lleihau aflonyddwch i drigolion ac ymwelwyr. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn pwysleisio ymrwymiad i les bywyd gwyllt a chysur dynol, gan na fydd yr hebog wedi achosi unrhyw niwed i'r gwylanod.

## GRANT STORIEL I DDOD A GWAITH CELF O SAFON I FANGOR

Mae Storiel wedi'i dewis i fod yn rhan o fenter gyffrous a fydd yn sefydlu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru (OCGGC). Yn seiliedig ar fodel rhwydwaith gwasgaredig, mae'n bartneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Oriel Gelf Glynn Vivian Abertawe, MOSTYN, Llandudno, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, Oriel Davies y Drenewydd, Oriel Myrddin Caerfyrddin, Plas Glyn-y-Weddw Pwllheli, Canolfan Grefftau Rhuthun a Storiel Bangor. Mae'r prosiect hwn yn ceisio gwneud casgliadau celf cenedlaethol yn fwy hygyrch i gymunedau yng Nghymru trwy gynyddu arddangosfeydd. Gyda buddsoddiad o tua £300,000 wedi'i ddyrannu rhwng 2023 a 2025, bydd Storiel yn chwarae rhan hollbwysig wrth arddangos gweithiau celf nad oedd ar gael i ar gael i'w arddangos i'r cyhoedd yn flaenorol. Yn ogystal, bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i wella systemau diogelwch ac amgylcheddol, gan sicrhau cadwraeth asedau diwylliannol arwyddocaol. Am fwy o wybodaeth ewch i;

https://www.llyw.cymru/cymunedau-lleol-am-gael-gwell-cyfleoedd-i-fwynhau-casgliad-cenedlaethol-o-gelf-gyfoes-cymru





# ADFYWIO BANGOR

# DIWEDDARIADAU PROSIECTAU PARTNERIAETH

14/05/2024

Trawsnewid Trefi Transforming Towns
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sustainable Communities for Learning
Funded by UK Government Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Ffyniant Bro Levelling Up
Cyngor Gwynedd



## ARWYDDION NEWYDD AR Y GWEILL I'R DDINAS

Mae Strategaeth Arwyddion Bangor, sy'n canolbwyntio ar wella isadeiledd ag annog trafnidiaeth cynaliadwy, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd, wedi'i gwblhau. Mae Cyngor Gwynedd erbyn hyn yn gweithredu'r strategaeth drwy osod mynegbyst newydd o amgylch y ddinas, cynnig gwybodaeth hanfodol ar dirnodau lleol, mae preswylwyr ac ymwelwyr yn cael budd o hyn. Bydd y prosiect yn cael ei ariannu gan Trawsnewid Trefi, cynllun gan Lywodraeth Cymru i gefnogi adfywiad,
a'r Gronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU. Wrth flaenoriaethu cerdded a beicio, mae'r fenter hefyd yn cefnogi ymdrechion teithio eco-gyfeillgar. Mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2024, ac mae disgwyl iddo wella hygyrchedd ac atyniad Bangor yn arw, gan greu gosodiad trefol mwy deniadol.

## CYNLLUNIAU'N DECHRAU AR DDATHLIADAU PEN-BLWYDD BANGOR YN 1500 OED

Fel y ddinas hynaf yng Nghymru, mae Bangor yn paratoi i ddathlu ei phen-blwydd yn 1500 oed mewn steil. Mae syniadau a chynlluniau wrthi yn cael eu trafod i nodi'r garreg filltir hon, sy'n cael eu harwain gan Gyngor Dinas Bangor. Mae gweithgor pwrpasol wedi'i ffurfio, gyda'r dasg o drefnu nifer o ddathliadau sy'n dangos hanfod o hanes cyfoethog Bangor. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn fuan i gasglu mewnbwn a syniadau gan drigolion y ddinas. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod y dathliadau pen-blwydd yn adlewyrchu diddordebau a dyheadau cymuned Bangor.

